**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

SeneddPlant@senedd.cymru

23 Ionawr 2024

Annwyl Jayne

Yn dilyn sesiwn graffu ddrafft cyllideb y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 11 Ionawr, ysgrifennaf atoch i roi ychydig o gywiriadau i chi i drawsgrifiad y sesiwn.

Hoffwn ychwanegu'r cywiriad canlynol at y trawsgrifiad ar gyfer fy nghyfraniad ym mharagraff 164:

> *Er bod y cynnydd canrannol mewn lleoedd hyfforddi Therapydd Iaith a Lleferydd yn gywir ar 'tua 11%' (ffigwr gwirioneddol 11.4%) ni ddylai hyn fod wedi'i nodi ar gyfer y flwyddyn diwethaf. Mae'r ffigur hwn yn ymwneud â'r cynnydd canrannol mewn lleoedd hyfforddi Therapydd Iaith a Lleferydd ers 2018.*

Yn ychwanegol, ym mharagraff 8 o'r trawsgrifiad, defnyddiais derminoleg a oedd yn nodi bod gwasanaethau plant wedi'u 'clustnodi' o fewn y fframwaith cynllunio. Cafodd hyn ei godi gennych chi eich hun mewn crynodeb ym mharagraff 166 ac mae wedi arwain at gamau penodol yn dilyn y cyfarfod, fel a ganlyn:

> *Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu rhagor o wybodaeth am sut mae fframwaith cynllunio'r GIG yn cefnogi neilltuo cyllid ar gyfer plant a phobl ifanc.*

Er mwyn egluro, nid yw dyraniadau ar gyfer plant a phobl ifanc wedi'u neilltuo o safbwynt cyllido. Roeddwn yn ceisio cyfleu bod disgwyliadau penodol o fewn y fframwaith cynllunio sy'n ymwneud ag ansawdd ac ecwiti gwasanaethau a sut y maent yn effeithio ar wasanaethau plant. Rwy'n awyddus i weld tystiolaeth o'r dulliau sy'n cael eu defnyddio ar draws y meysydd hyn wedi'i nodi yn naratif y cynlluniau tair blynedd.

Yr eiddoch yn gywir

M. E. Morgan

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.